



Addasiadau Tai

Yr allwedd I fyw annibynnol ar gyfer pobl Hŷn



Gwybodaeth ar gyfer Pobl Hŷn sydd angen help gydag Atgyweiriadau ac Addasiadau Tai

Am yr Wybodaeth yma

Nod yr e-daflen yma yw rhoi gwybodaeth glir i bobl hŷn â'u cynrychiolwyr am y gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer atgyweiriadau ac addasiadau tai.

Mae'n esbonio pa gymorth a all fod ar gael i helpu gydag addasiadau, atgyweiriadau a gwelliannau i'ch cartref os ydych yn berchennog cartref neu'n denant hŷn. Mae'n cynnwys manylion am:

1. Polisi eich awdurdod lleol ar roi cymorth
2. Help gydag addasiadau mawr
3. Help gydag addasiadau llai
4. Help gydag atgyweiriadau
5. Sefydliadau, Cysylltiadau a Dolenni Gwe Defnyddiol

Er y rhoddir gwybodaeth gyffredinol yn yr e-daflen hon ar gyfer arweiniad, mae cryn amrywiaeth yn y ffordd y caiff addasiadau eu darparu ar draws Cymru. Mae dolenni yng nghefn y daflen i'ch helpu i gysylltu â'ch awdurdod lleol, cymdeithas tai, Asiantaeth Gofal a Thrwsio neu bartner Age Cymru Lleol. Gall eich Asiantaeth Gofal a Thrwsio leol roi cyngor a gwybodaeth rhad ac am ddim a diduedd i chi am y llwybr gorau i chi.

1. POLISI'AU AWDURDODAU LLEOL I DDARPARU CYMORTH

Y man cychwyn gorau ar gyfer grantiau tai a help arall y mae eich awdurdod (cyngor) lleol yn eu darparu yw edrych ar eu polisi ar addasiadau i dai sector preifat ac i'r anabl.

Mae'n rhaid i'ch awdurdod lleol fod wedi cyhoeddi polisi ac mae'n rhaid i gopi o'u polisi llawn fod ar gael i'r cyhoedd ei weld yn eu prif swyddfa. Bydd awdurdodau lleol hefyd yn cyhoeddi eu polisiâu ar eu gwefannau, neu byddant ar gael yn swyddfeydd y Cyngor ac mewn neuaddau tref. Gall copïâu hefyd fod ar gael gan sefydliadau gwirfoddol lleol megis Cyngor Ar Bopeth, asiantaethau lleol Gofal a Thrwsio a llyfrgelloedd cyhoeddus.

Mae'n rhaid i grynodedb o'r polisi fod ar gael ar gais. Medrir codi tâl rhesymol am y gwasanaeth os anfonir y polisi atoch drwy'r post. Dylai'r crynodedb ddweud wrthyhch:

- pa fath o help sydd ar gael (yn cynnwys Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a pha grantiau tai eraill)
- p'un ai ydych yn gymwys i wneud cais, sut i wneud ymholiad a chais am gymorth
- telerau ad-dalu
- yr amodau sy'n gysylltiedig (os oes rhai)
- amserlenni targed ar gyfer gwahanol rannau o'r broses
- p'un ai a gynigir unrhyw gyngor a chymorth gan Asiantaeth Gofal a Thrwsio leol neu Asiantaeth Grant yr awdurdod lleol ei hunan.

Gall cymorth awdurdodau lleol gael ei roi mewn unrhyw ffurf, yn cynnwys benthyciadau, grantiau, llafur, deunyddiau neu gyngor. Medrir ei roi yn ddiamed, neu gyda amodau megis ad-dalu'r cyfan neu ran o'r cymorth neu gyfraniad at y gwaith y mae angen y cymorth ar ei gyfer.

Wrth roi cymorth, mae'n rhaid i awdurdod lleol:

- osod mewn ysgrifen yr amodau a'r telerau ar gyfer rhoi'r cymorth
- sicrhau eich bod wedi derbyn cyngor neu wybodaeth briodol am faint a natur unrhyw oblygiad (ariannol neu fel arall) y byddwch yn ei gymryd
- rhoi ystyriaeth i'ch gallu i wneud ad-daliad.

Dylai'r awdurdod lleol hefyd fod â gweithdrefn gwynion a gweithdrefn apelïadau sy'n ysgrifenedig ac ar gael yn barod. Os nad ydych yn hapus gydag ymateb eich awdurdod lleol i'ch cwyn, gall fod modd i chi atgyfeirio eich achos at Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Dilynwch y ddolen i wefan yr [Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus](#).

2. HELP GYDAG ADDASIADAU MAWR

Mae nifer o ffyrdd gwahanol y caiff addasiadau tai mwy eu darparu ac y talir amdanynt. Mae hyn yn amrywio rhwng awdurdodau lleol, a hefyd yn dibynnu ar p'un ai ydych yn berchen-breswylwr, tenant preifat, tenant cyngor neu denant cymdeithas tai. A siarad yn gyffredinol, mae hawl cyfreithiol i Grant Cyfleusterau i'r Anabl os ydych angen addasiadau mawr, ond efallai nad dyna o reidrwydd y llwybr gorau i chi. Os ydych yn denant cyngor neu'n denant cymdeithas tai, efallai y gall eich landlord drefnu'r gwaith drosoch heb fod angen Grant Cyfleusterau i'r Anabl. Dylech siarad gyda'ch awdurdod lleol neu Asiantaeth Gofal a Thrwsio leol i gael cyngor ar y dewis gorau i chi.

GRANTIAU CYFLEUSTERAU I'R ANABL

Mae'n oblygiad cyfreithiol ar awdurdodau lleol i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Mae hyn yn golygu os ydych angen cyfleusterau wedi'u haddasu neu addasiadau i'ch helpu i gael mynediad i'ch cartref a chyfleusterau yn eich cartref, bod yn rhaid i'ch awdurdod lleol ddarparu'r Grant yma i chi. Gall Grant Cyfleusterau i'r Anabl eich helpu i fyw mor annibynnol ac mor gysurus ag sydd modd. Uchafswm Grant Cyfleusterau i'r Anabl yng Nghymru yw £36,000.

Mae rhai amodau cymhwyso ar gyfer Grant Cyfleusterau i'r Anabl y mae'n rhaid i chi eu diwallu a phrosesau penodol y mae angen i chi fynd drwyddynt. Mae hyn yn cynnwys prawf modd o'ch incwm a'ch cynilion, asesiad gan therapydd galwedigaethol a syrfe o'ch cartref. Efallai y bydd hefyd angen i chi gael dyfynbrisiau gan adeiladwyr i wneud y gwaith, er y gall rhai awdurdodau lleol drefnu hyn ar eich rhan.

Gall eich awdurdod lleol, eich Asiantaeth Gofal a Thrwsio leol neu bartner lleol Age Cymru roi cyngor a help manylach i chi gyda hyn i gyd.



Pwy sy'n gymwys?

I fod yn gymwys mae'n rhaid i chi fod yn anabl dan dermau Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996. Mae hyn yn dweud fod person yn anabl os:

- yr amharwyd yn sylweddol ar eu golwg, clyw neu leferydd
- oes ganddynt anhwylder neu amhariad meddwl o unrhyw fath
- ydynt wedi eu hanablu'n gorfforol yn sylweddol gan salwch, anaf, amhariad a fu'n bresennol ers genedigaeth, neu fel arall
- ydynt wedi cofrestru'n anabl (neu y medrent fod wedi cofrestru) gyda'r adran gwasanaethau cymdeithasol dan dermau Deddf Cymorth Cenedlaethol 1948 neu Ddeddf Plant 1989.

Nid yw'n rhaid i chi fod wedi cofrestru'n anabl i wneud cais.

Medrwrch wneud cais am Grant Cyfleusterau i'r Anabl p'un ai ydych yn berchennog eich cartref neu'n denant ynddo. Nid yw'n rhaid i chi fod y person anabl y mae angen y gwaith ar eu cyfer. Bydd yn rhaid i'r ymgeisydd roi tystysgrif i'r awdurdod lleol yn dweud y bydd preswlydd anabl yn byw yn yr annedd am o leiaf bum mlynedd ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau neu am gyfnod byrrach os oes rhesymau iechyd neu resymau arbennig eraill. Os ydych yn rhentu eich cartref yn breifat, bydd angen i chi gael caniatâd gan y landlord i gael y gwaith wedi'i wneud.



Pa fathau o waith gaiff eu cynnwys?

Mae'n rhaid i'ch awdurdod lleol roi Grant Cyfleusterau i'r Anabl os:

- na fedrwrch gael mynediad i'ch cartref a/neu'r cyfleusterau sylfaenol o'i fewn (e.e. ystafelloedd ymolchi, cegin a chyfleusterau ystafell ymolchi) ac
- os ydych yn cymhwyso ar sail incwm.

Bydd yn rhaid i'ch awdurdod lleol gytuno hefyd fod y gwaith yn rhesymol a'i bod yn bosibl ei wneud.

Mae enghreifftiau o'r mathau o waith y gall y grant dalu amdano yn cynnwys:

- ei gwneud yn rhwyddach i chi fynd i mewn ac allan o'ch cartref (ee. drwy ledaenu'r drysau a gosod rampiau)
- darparu mynediad anabl i'r ystafell fyw, ystafell wely, cegin ac ystafell ymolchi (e.e. drwy osod lifft grisiau neu ystafell wely lawr grisiau)
- darparu cyfleusterau ystafell ymolchi a chegin addas y medrwrch eu defnyddio'n annibynnol (e.e. cawod gyda mynediad gwastad, toiled hygyrch a chyfleusterau cegin hygyrch)
- addasu ac estyniadau i ystafelloedd
- gwneud eich cartref yn ddiogel i chi a'r bobl sy'n byw gyda chi (e.e. drwy roi ystafell wedi ei haddasu'n arbennig lle mae'n ddiogel gadael person anabl ar ben ei hun neu wella goleuadau i sicrhau gwelededd gwell)

- addasu dulliau rheoli gwresogi neu oleuadau i'w gwneud yn rhwyddach i chi eu defnyddio
- gwella'r system wresogi yn eich cartref i'w gwneud yn addas ar gyfer anghenion y person anabl
- gwella mynediad i ardd drwy ei gwneud yn rhwyddach neu'n fwy diogel.

Grant Cyfleusterau i'r Anabl ar Ddisgresiwn a chymorth arall a all gael ei ddarparu

Gall eich awdurdod lleol roi cymorth ar ddisgresiwn ar gyfer addasiadau neu i'ch helpu i symud i lety arall addas. Nid oes cyfyngiad ar faint o gymorth y medrir ei roi. Medrir ei dalu mewn ychwanegiad, neu yn lle'r grant. Bydd angen i chi gysylltu â'ch awdurdod lleol i ganfod pa help ar ddisgresiwn a all fod ar gael.

Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- addasiadau bach na ddaw o fewn Grant Cyfleusterau i'r Anabl neu i sicrhau atebion yn gyflymach ar gyfer addasiadau brys
- ychwanegiad at Grant Cyfleusterau Anabl gorfodol (£36,000) oherwydd bod y gwaith yn ddrud, neu na fedrwch fforddio'r cyfraniad neu fod angen gwaith nad yw'n gymwys am y grant
- eich cynorthwyo i symud i annedd fwy addas lle mae hynny'n fwy cost-effeithiol nag addasu eich cartref presennol i'w gwneud yn addas ar gyfer eich anghenion. Medrir gwneud hyn hyd yn oed lle gall fod angen rhai addasiadau i'r annedd newydd.



Gwneud cais am Grant Cyfleusterau i'r Anabl

Mae Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ar gael fel arfer gan Adran Tai yr awdurdod lleol. Medrwch hefyd gysylltu â Gwasanaethau Cymdeithasol i wneud ymholiad am Grant Cyfleusterau i'r Anabl.

Er mai'r Gwasanaeth Grantiau Tai sy'n gyfrifol am benderfynu os byddwch yn cael grant, mae'n rhaid iddynt ymgynghori gyda Gwasanaethau Cymdeithasol, sy'n penderfynu pa addasiadau sydd yn 'angenrheidiol ac yn briodol'. Bydd therapyddion galwedigaethol yn gwneud y rôl yma. Maent yn fedrus mewn dadansoddi gweithgareddau a sut mae pobl yn rhyngweithio gyda'u hamgylchedd. Bydd eu hasesiad yn eich helpu i edrych ar y gweithgareddau rydych eisiau eu gwneud adref ac unrhyw rwystrau corfforol sydd, er mwyn eich helpu i ddynodi'r addasiad mwyaf defnyddiol ac effeithiol i gynyddu eich annibyniaeth.

Mae'n rhaid i'ch awdurdod lleol hefyd fod yn fodlon fod y gwaith yn 'rhesymol ac ymarferol' yng nghyswllt oedran a chyflwr yr annedd. Fel arfer caiff yr asesiad ei wneud gan Swyddog Iechyd yr Amgylchedd, Syrfëwr yr Adran Tai neu Syrfëwr o'ch Asiantaeth Gofal a Thrwsio leol.

Os ydych dros 60 oed, medrwch hefyd ofyn i'ch Asiantaeth Gofal a Thrwsio leol eich cynorthwyo gyda'r broses gais.

Gofynnir i chi nodi na allwch ddechrau unrhyw waith nes bod yr awdurdod lleol yn cymeradwyo eich cais am Grant.

Y Prawf Modd

Mae prawf modd ar Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (os nad ydynt ar gyfer plant anabl). Yn ei asesiad, dim ond eich incwm chi ac incwm eich gŵr, wraig neu bartner y bydd yr awdurdod lleol yn eu hystyried, hyd yn oed os nad ydych yn berchen y tŷ.

Mae hyn yn golygu os ydych, er enghraifft, yn berson sengl anabl yn byw gyda'ch merch sy'n oedolyn yn y cartref y mae hi'n berchennog arno, mai dim ond eich incwm chi ac nid ei hincwm hi ddylai gael ei gynnwys wrth gyfrif y prawf modd.

Bydd y prawf modd yn rhoi ystyriaeth i'ch incwm wythnosol cyfartalog. Anwybyddir rhai budd-daliadau anabledd a pheth o'ch cynilion. Ar gyfer cynilion uwchben terfyn penodol, rhoddir ystyriaeth i incwm tariff wythnosol tybiedig. Caiff hyn wedyn ei osod yn erbyn asesiad o anghenion sylfaenol, a gaiff eu cydnabod gan ystod o bremiymau a lwfansau. Os yw'ch adnoddau'n llai na'r asesiad yma, ni ddisgwylir fel arfer i chi gyfrannu at gostau'r gweithiau. Os yw'ch adnoddau yn fwy na'r lwfansau, efallai na fyddant ond yn cael yn rhan o grant neu heb gael dim o gwbl.

Os derbyniwch ran Credyd Gwarant Credyd Pensiwn, Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chynhaliaeth cysylltiedig ag incwm, Budd-dal Tai, Credyd Treth Gyngor neu Dreth Gweithio neu Gredyd Treth Plant a bod gennych incwm trethadwy gros o lai na £15,050, ni fyddwch fel arfer yn gorfod gwneud cyfraniad.

Mae'r prawf modd yn gymhleth, ac mae llawer o awdurdodau lleol yn gwneud hyn yn gyflym iawn ac yn gynnar yn y broses fel eich bod yn gwybod os bydd gennych hawl i grant llawn, neu os bydd yn rhaid i chi wneud cyfraniad. Gallai fod yn ddefnyddiol i chi gael gwybodaeth bellach gan eich awdurdod lleol, eich Asiantaeth Gofal a Thrwsio leol neu bartner lleol Age Cymru.

Pridiant eiddo

Mae gan awdurdodau lleol ddisgresiwn i osod pridiant cyfreithiol ar eiddo a addaswyd gyda Grant Cyfleusterau i'r Anabl, Mae hyn yn golygu y talir swm penodol i'r awdurdod lleol os gwerthir yr annedd o fewn 10 mlynedd. Cewch eich hysbysu am hyn os ydych yn y sefyllfa yma. Nid yw llawer yn gosod amodau ad-dalu, ond dylech siarad gyda'ch awdurdod lleol eich hun am hyn, a'r swm y medrent ei gwneud yn ofynnol i chi ei ad-dalu.

Problemau a chwynion

Gall weithiau fod oedi maith wrth wneud am Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Weithiau mae hyn oherwydd bod rhestr aros hir am asesiad gan therapydd galwedigaethol neu weithiau mae oherwydd bod yr Adran Tai eisoes wedi defnyddio'r arian a ddyrannwyd ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Bydd amserau aros yn amrywio rhwng gwahanol awdurdodau lleol. Medrwch ofyn iddynt ar ddechrau'r broses pa mor hir yw'r amser aros yn eich ardal chi.

Mae gennych rai hawliau sy'n golygu na ddylech orfod aros am gyfnod afresymol. Dywed y gyfraith na ddylech fod yn gorfod aros mwy na chwe mis ar ôl i chi wneud cais ffurfiol am grant i glywed os cewch un. Hefyd, os ydych yn gymwys am Grant Cyfleusterau i'r Anabl, ni all yr Adran Tai wrthod talu ar y sail nad oes ganddi ddigon o arian.

Os na chewch benderfyniad o fewn chwe mis o wneud cais, dylech wneud cwyn ysgrifenedig i'ch awdurdod lleol a gofyn am benderfyniad. Os ydych yn dal i beidio cael penderfyniad neu os cawsoch eich atal rhag gwneud cais yn y lle cyntaf, gofynnwch am fwy o gyngor neu wneud cwyn i'r Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru. Dilynwch y ddolen i wefan [Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus](#) i gael mwy o wybodaeth.

Tenantiaid Cymdeithas Tai – Grant Addasiadau Ffisegol

Os ydych yn denant cymdeithas tai, er bod gennych hawl cyfreithiol i Grant Cyfleusterau i'r Anabl, eich cam cyntaf ddylai fod i gysylltu â'ch cymdeithas tai, gan y medrent drefnu i'r gwaith gael ei wneud yn defnyddio ffynhonnell arall o arian, a all fod yn gyflymach. Efallai y medrech hefyd fod â diddordeb symud i annedd fwy addas, a dylech drafod hyn gyda'ch landlord. Dilyn linc [tudalen 13](#) i gyrraedd eich cymdeithas tai.

Tenantiaid Cyngor

Os ydych yn denant cyngor, er bod gennych hefyd hawl cyfreithiol i Grant Cyfleusterau i'r Anabl, gall eich Adran Tai fod â gwahanol brosesau a ffyrdd i gael gwneud gwaith addasu i'ch cartref. Gall hyn fod yn gyflymach na gwneud cais am Grant Cyfleusterau i'r Anabl. Gallech hefyd fod â diddordeb neu gallai fod yn well gennych symud i annedd fwy addas, a dylech hefyd drafod hyn gyda'ch Adran Tai.

Trosglwyddo Stoc/Sefydliadau Tai Cymunedol Cydfuddiannol

Os arferech fod yn denant cyngor a bod y stoc tai yn awr wedi ei drosglwyddo i landlord (sefydliad tai cymunedol cydfuddiannol), mae gennych hawl cyfreithiol i Grant Cyfleusterau i'r Anabl. Fodd bynnag, bydd eich landlord newydd wedi neilltuo cyllid i ddelio gydag anghenion addasu ei denantiaid, a dylech drafod eich anghenion gyda'ch landlord.

3. GWAITH ADDASU LLAI

Efallai mai mân addasiadau megis canllawiau yw'r cyfan sydd ei angen arnoch. Mewn achosion o'r fath, gall fod ffordd symlach na Grant Cyfleusterau i'r Anabl. Dylech siarad gyda'ch awdurdod lleol, Asiantaeth Gofal a Thrwsio leol neu bartner lleol Age Cymru i gael mwy o wybodaeth.

Mae'r mathau o wasanaethau ac atebion a all fod ar gael fel a ganlyn (ond gall hyn amrywio ar draws Cymru).

Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae'n ddyletswydd ar adran Gwasanaethau Cymdeithasol eich awdurdod lleol i ddarparu gwasanaethau neilltuol i bobl anabl ac mae'n rhaid iddynt ddarparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion pobl anabl, yn cynnwys:

- darparu cymorth ymarferol o fewn y cartref
- darparu cymhorthion ac offer anabledd
- cymorth gydag addasiadau i'r cartref.

Mae hyn yn golygu, os ydych angen addasiadau ac yn cael anhawster yn cael Grant Cyfleusterau Anabl, y gall eich Adran Gwasanaethau Cymdeithasol ddal i fod â dyletswydd i'ch cynorthwyo.

Efallai y gall Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd helpu gyda chost gwaith na ddaw o fewn Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Efallai y medrant ddarparu cyllid ychwanegol os nad ydych yn medru dod o hyd i'r arian ar gyfer y cyfraniad a aseswyd i chi, neu os yw'r gwaith yn costio mwy na therfyn £36,000 y Grant Cyfleusterau i'r Anabl.

Weithiau gall Gwasanaethau Cymdeithasol ddarparu addasiadau bach ac offer yn uniongyrchol neu ddarparu cyllid uniongyrchol ar gyfer rhai mathau o waith addasu llai.

I gael mwy o wybodaeth am p'un ai ydych yn gymwys am gymorth gan Gwasanaethau Cymdeithasol, gwelwch [Factsheet 41](#) Age UK "Local authority assessment for community care services".

Mae [Dalen Ffeithiau Gofal Cymunedol](#) Age Cymru hefyd ar gael.

Asiantaethau Gofal a Thrwsio

Mae Asiantaethau Gofal a Thrwsio yn sefydliadau dim-am-elw a gaiff eu rheoli'n lleol fel elusennau annibynnol, neu gan gymdeithasau tai. Maent yn rhoi cefnogaeth i berchnogion tai hŷn bregus i'w helpu i gael gwaith addasu, atgyweirio a gwelliannau i'w cartref. Bydd eu gwasanaeth yn cynnwys help ar sut i gael cymorth ariannol i wneud y gwaith, help i gael mynediad i'r cymorth ariannol hwnnw, cymorth technegol i gynllunio'r gwaith a sicrhau y caiff y gwaith ei wneud gan grefftwyr sydd ag achrediad.

Mae'r rhan fwyaf o Asiantaethau Gofal a Thrwsio hefyd yn darparu amrywiaeth o wasanaethau seiliedig ar dai ar gyfer pobl agored i niwed fydd yn eu galluogi i barhau'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Gall hyn gynnwys gwasanaeth tasgmon, gwasanaethau garddio ac addurno, gwella diogelwch a sicrwydd y cartref, a gwella mesurau effeithiolrwydd ynni cartref.

Mae pob Asiantaeth Gofal a Thrwsio yng Nghymru yn darparu'r Rhaglen Addasiadau Brys ar ran Llywodraeth Cymru ac mewn partneriaeth gyda Byrddau Iechyd Lleol ac awdurdodau lleol. Mae'r cynllun yn canolbwyntio'n arbennig ar gyflymu rhyddhau pobl o ysbyty ac ar waith sy'n atal damweiniau ac yn cadw pobl rhag gorfod mynd i ysbyty. Mae cost y gweithiau yn isel ond fe'i gwneir yn gyflym ar gyfer y bobl hŷn hynny a fyddai'n manteisio o waith atal neu weithiau i'w galluogi i ddychwelyd adref yn gyflymach o ysbyty.

Hyd yn oed os medrwch dalu am y gwaith ei hunan, gallwch fynd â llawer o'r pryder allan o'i drefnu drwy ddefnyddio gwasanaeth Asiantaeth Gofal a Thrwsio.

Mae Asiantaeth Gofal a Thrwsio ym mhob sir yng Nghymru. Medrir cael gwybodaeth bellach ar Gofal a Thrwsio yng Nghymru ac am eich Asiantaeth Gofal a Thrwsio leol ar wefan [Care & Repair Cymru](#) drwy ddilyn y ddolen.

Tenantiaid Cymdeithasau Tai a Thenantiaid Cyngor

Os ydych yn Denant Cyngor neu'n Denant Cymdeithas Tai, dylech gysylltu â'ch landlord gan fod y modd y maent yn darparu addasiadau llai yn amrywio'n sylweddol ar draws Cymru. Cliciwch ar y dolenni islaw i gael gwybodaeth gyswllt ar gyfer eich landlord eich hunan.

4. ATGYWEIRIADAU

Os ydych yn berchen ar eich cartref ac yn byw ynddo, caiff y mathau o grantiau atgyweirio neu fenthyciadau a all fod ar gael yn eich ardal eu nodi ym mholisi Addasiadau Tai Sector Preifat ac Anabledd eich awdurdod lleol. Mae manylion pellach yn Adran 1 uwchlaw. Holwch eich awdurdod lleol eich hunan i gael gwybod yn union pa help sydd ar gael yn eich ardal.

Mae'r mathau o gymorth a all fod ar gael yn cynnwys:

- Grantiau adnewyddu
- Grantiau mân atgyweiriadau
- Benthyciadau
- Cynlluniau atgyweirio bach mewn partneriaeth rhwng awdurdodau lleol ac Asiantaethau Gofal a Thrwsio.

Gall fod prawf modd ar unrhyw grant, bydd hyn yn dibynnu ar y polisi a gaiff ei fabwysiadu gan eich awdurdod lleol.

Fel y sonnir uchod, bydd polisi a gweithdrefnau pob awdurdod lleol ar gyfer darparu grantiau a/neu fenthyciadau yn wahanol, a bydd angen i chi gysylltu â'ch awdurdod lleol a gweld eu polisi ar addasiadau tai sector preifat ac anabledd i gael manylion.

Os ydych yn denant cyngor, neu'n denant cymdeithas tai, dylech gysylltu â'ch landlord os oes gennych unrhyw bryderon bod eich cartref mewn cyflwr gwael neu angen gwella.

Age Cymru

Mae Age Cymru yn sefydliad newydd yn cyfuno Age Concern Cymru a Help the Aged yng Nghymru. Mae Age Cymru yn rhoi gwybodaeth a chynngor drwy eu llinell gyngor rhadffôn genedlaethol ac mae'n gweithio gyda sefydliadau lleol ar draws Cymru i roi cynngor lleol, gwybodaeth a gwasanaethau.

Llinell Gyngor Age UK: 0800 169 65 65 (8am-7pm, 365 diwrnod y flwyddyn)

Gwefan www.agecymru.org.uk

Care & Repair Cymru

Care & Repair Cymru yw'r corff cenedlaethol ar gyfer Gofal a Thrwsio yng Nghymru a Hyrwyddwyr Tai Pobl Hŷn. Mae'r 22 Asiantaeth Gofal a Thrwsio ar draws Cymru'n helpu pobl hŷn i barhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain gyda mwy o annibyniaeth ac urddas. Cyflawnir hyn drwy wneud a hwyluso gwaith addasu, atgyweirio a gwella ar gyfer pobl hŷn yn eu cartrefi eu hunain.

Ffôn: 02920 674830 (Care & Repair Cymru)

Rhif cyfradd lleol 0300 111 3333 i gael eich cysylltu gyda'ch Asiantaeth Gofal a Thrwsio leol

Gwefan <http://www.careandrepair.org.uk/care-and-repair-agencies/>

Cyngor ar Bopeth (CAB)

Mae CAB yn anelu rhoi cynngor diduedd yn rhad ac am ddim ar amrywiaeth o bynciau. Bydd cyfeiriad eich CAB lleol yn y llyfr ffôn neu ar y wefan.

Ffôn: 020 7833 2181 (ar gyfer manylion cyswllt lleol yn unig – nid cynngor dros y ffôn)

Gwefan: www.adviceguide.org.uk

Cymdeithas Brydeinig a Choleg Therapyddion Galwedigaethol

Cymdeithas Brydeinig Therapyddion Galwedigaethol yw'r corff proffesiynol ac undeb llafur ar gyfer staff therapi galwedigaethol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Coleg Therapyddion Galwedigaethol (COT) yn is-sefydliad gyda chyfrifoldeb wedi'i ddirprwyo ar gyfer hyrwyddo arfer da. Mae gan y Coleg ymrwymiad i ymarfer sy'n canoli ar y cleient a chynnwys y defnyddiwr gwasanaeth fel partner ar bob cam o'r broses therapiwtig.

Ffôn: 020 7357 6480

Gwefan: www.cot.org.uk

Cysylltwch â'ch adran gwasanaethau cymdeithasol leol a gofyn am asesiad therapi galwedigaethol. Gallwch hefyd gael mynediad i therapydd galwedigaethol drwy eich swyddog iechyd neu feddyg teulu.

Caiff therapyddion galwedigaethol eu rheoleiddio gan y Cyngor

Proffesiynau Iechyd

Gwefan www.hpc-uk.org

Coleg Therapyddion Galwedigaethol (2010) "Cod moeseg ac ymddygiad proffesiynol". Llundain: COT. Ar gael [yma](#)

Disability Alliance

Mae'r Disability Alliance yn elusen genedlaethol gyda'r brif nod o liniaru tloedi a gwella safonau byw pobl anabl. Maent yn fwyaf adnabyddus fel awduron y Llawlyfr Hawliau Anabledd sy'n rhoi gwybodaeth glir a chryno ar y system budd-daliadau a chredydau treth, yn ogystal â meysydd eraill megis gofal cymdeithasol a phreswyl ac amrywiaeth o faterion eraill sy'n berthnasol i bobl anabl a'u teuluoedd.

Ffôn: 020 7250 8181

Gwefan: www.disabilityalliance.org

Elderly Accommodation Counsel (EAC)

Mae EAC yn rhoi gwybodaeth ar bob math o lety, cymorth a gofal ar gyfer pobl hŷn. Mae'n cadw cronfa ddata fanwl genedlaethol ar gyfer pob math o lety arbenigol ar gyfer pobl hŷn. Unwaith y byddwch wedi dod o hyd i ddarparwydd posibl, bydd yn rhaid i chi gysylltu â hwy'n uniongyrchol i gadarnhau manylion megis argaeledd a sut i wneud cais.

Ffôn: 020 7820 1343

Gwefan: www.housingcare.org

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Hoffai'r Comisiynydd glywed gennych os hoffech ddweud wrthym am eich profiadau o wasanaethau y gwnaethoch eu derbyn neu faterion a gredwch sy'n bwysig.

Rôl y Comisiynydd yw:

- hyrwyddo ymwybyddiaeth o ddiddordebau pobl hŷn
- hyrwyddo diwedd gwahaniaethu ar sail oedran
- annog arfer da yn y driniaeth o bobl hŷn
- adolygu'r gyfraith sy'n effeithio ar ddiddordebau pobl hŷn

Cyfeiriad: Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Adeiladau Cambrian, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd CF10 5FL.

Ffôn: 08442 640 670

E-bost: ask@olderpeoplewales.com

Gwefan: www.olderpeoplewales.com

Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

I gwyno am wasanaeth awdurdod lleol, ffoniwch yr Ombwdsman gan ddefnyddio'r rhif ffôn islaw neu ar y ffurflen ar-lein ar y wefan.

Ffôn: 01656 641199

Gwefan: <http://www.ombudsman-wales.org.uk/>

TrustMark

Mae gwefan TrustMark yn cynnig cymorth wrth ddod o hyd i adeiladwyr, plymwyr, trydanwyr, towyr a busnesau eraill a enillodd TrustMark gan weithredwyr cynllun cymeradwy sy'n cydymffurfio gyda safonau a gymeradwywyd gan y llywodraeth.

Ffôn: 01344 666 104

Gwefan: www.trustmark.org.uk

Awdurdodau Lleol

Cysylltu ag awdurdod lleol wrth glicio'r linc isod am restr gyflawn o awdurdodau lleol Cymru

[Awdurdodau Lleol Cymru](#)

Cymdeithasau Tai

Cysylltu â chymdeithas tai wrth glicio'r linc isod am restr gyflawn o gymdeithasau tai Cymru

[Cymdeithasau Tai yng nghymru](#)

Asiantaethau Gofal a Thrwsio

Cysylltu â Care & Repair Cymru neu Asiantaeth Gofal a Thrwsio wrth glicio'r linc isod

[Asiantaeth Gofal a Thrwsio](#)

Age Connect Wales

Clic ar y linc isod am restr swyddfeydd Age Connect Wales

[Age Connect](#)

Ymwadiad a gwybodaeth hawlfraint

Nid yw'r wybodaeth yma'n ddatganiad cynhwysfawr o'r gyfraith yn y pwnc yma a ni all y bartneriaeth a helpodd i gynhyrchu'r daflen (Care & Repair Cymru, Age Cymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a'r Coleg Therapyddion Galwedigaethol) roi cyngor cyfreithiol neu ariannol unigol. Gall rhai rheolau fod wedi newid ers cyhoeddi'r canllaw yma. Os oes gennych unrhyw ymholiadau nad yw'r canllaw yma yn eu hateb, gofynnwch am gyngor pellach gan un o'r sefydliadau a awgrymwyd.

Gofynnir i chi nodi nad yw cynnwys asiantaethau, cwmnïau, cynnyrch, gwasanaethau neu gyhoeddiadau a enwyd yn golygu bod Care & Repair Cymru na'n partneriaid yn eu cymeradwyo. Er y gwneir pob ymdrech i sicrhau cywirdeb, ni fedrir dal Care & Repair Cymru a'n partneriaid yn gyfrifol am gamgymeriadau neu wallau.